



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2015 Rhif 1018 (Cy. 72)

2015 No. 1018 (W. 72)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Rheoliadau Traffordd yr M4 (Man i'r Gorllewin o Gyffordd 23A (Magwyr) i Fan i'r Dwyrain o Gyffordd 29 (Cas-bach)) (Terfynau Cyflymder Amrywiadwy) 2015

The M4 Motorway (West of Junction 23A (Magor) to East of Junction 29 (Castleton)) (Variable Speed Limits) Regulations 2015

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Gweinidogion Cymru sydd â'r pŵer i wneud rheoliadau mewn cysylltiad â defnyddio ffyrdd arbennig o dan adran 17(2) a (3) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (ac eithrio mewn cysylltiad â ffyrdd arbennig yn gyffredinol) i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer uchod, yn gwneud y Rheoliadau hyn sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer terfynau cyflymder amrywiadwy ar y ffyrdd a bennir yn yr Atodlen.

Pan fo arwyddion terfyn cyflymder amrywiadwy yn weithredol, ni chaniateir i gerbyd gael ei yrru'n gyflymach na'r cyflymder uchaf a ddangosir ar bob arwydd terfyn cyflymder y mae'r cerbyd yn ei basio hyd nes y bydd yn pasio arwydd sy'n dangos bod y terfyn cyflymder cenedlaethol yn gymwys neu hyd nes y bydd y cerbyd yn ymadael â'r ffyrdd y mae'r Rheoliadau yn berthnasol iddynt. Pan fo terfyn cyflymder yn newid mewn llai na 10 eiliad cyn i gerbyd basio'r arwydd, a phan fo'r arwydd wedi dangos terfyn cyflymder uwch, mae'r Rheoliadau yn caniatáu i yrrwr fynd mor gyflym â'r terfyn cyflymder uchaf sy'n gymwys cyn y newid. Pan fo'r arwydd terfyn cyflymder yn dangos terfyn cyflymder pan fydd cerbyd yn ei basio ond yn llai na 10 eiliad cyn hynny nid oedd yn dangos unrhyw derfyn cyflymder neu roedd y terfyn cyflymder cenedlaethol yn gymwys, bernir nad yw'r arwydd yn dangos unrhyw derfyn cyflymder i'r cerbyd sy'n ei basio.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

The power to make regulations with respect to the use of special roads under section 17(2) and (3) of the Road Traffic Regulation Act 1984 (except with respect to special roads generally) lies with the Welsh Ministers so far as they are exercisable in relation to Wales.

In exercise of the above power, the Welsh Ministers make these Regulations which make provision for variable speed limits on the roads specified in the Schedule.

Where variable speed limit signs are in operation a vehicle may not be driven at a speed above the maximum indicated by each speed limit sign passed by the vehicle until it passes a sign indicating that the national speed limit applies or the vehicle leaves the roads covered by the Regulations. Where a speed limit changes less than 10 seconds before a vehicle passes the sign and the sign had indicated a higher speed limit, the Regulations allow a driver to proceed at a speed up to the maximum applicable before the change. Where the speed limit sign indicates a speed limit when it is passed by a vehicle but less than 10 seconds previously it was either giving no indication of a speed limit or that the national speed limit applied, the sign is to be taken as giving no indication of a speed limit to the vehicle passing it.

Mae'n drosedd i ddefnyddio ffordd arbennig yn groes i reoliadau a wnaed o dan adran 17(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Traffordd yr M4 (O Fan i'r Gorllewin o Gyffordd 23A (Magwyr) i Fan i'r Dwyrain o Gyffordd 29 (Cas-bach)) (Terfynau Cyflymder Amrywiadwy) 2011 (O.S. 2011 Rhif 94 (Cy. 19)).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

It is an offence to use a special road in contravention of regulations made under section 17(2) of the Road Traffic Regulation Act 1984.

These Regulations revoke and replace the M4 Motorway (West of Junction 23A (Magor) to East of Junction 29 (Castleton)) (Variable Speed Limits) Regulations 2011 (S.I. 2011 No. 94 (W. 19)).

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

2015 Rhif 1018 (Cy. 72)

2015 No. 1018 (W. 72)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Rheoliadau Traffordd yr M4 (Man i'r Gorllewin o Gyffordd 23A (Magwyr) i Fan i'r Dwyrain o Gyffordd 29 (Cas-bach)) (Terfynau Cyflymder Amrywiadwy) 2015

The M4 Motorway (West of Junction 23A (Magor) to East of Junction 29 (Castleton)) (Variable Speed Limits) Regulations 2015

Gwnaed 30 Mawrth 2015

Made 30 March 2015

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru 31 Mawrth 2015

Laid before the National Assembly for Wales 31 March 2015

Yn dod i rym 21 Ebrill 2015

Coming into force 21 April 2015

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 17(2) a 17(3) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), ac ar ôl ymgynghori â'r cyrff cynrychioliadol hynny y tybiwyd eu bod yn briodol yn unol ag adran 134(2) o'r Ddeddf honno, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn—

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred upon them by section 17(2) and 17(3) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), and after consultation with such representative bodies as were thought fit in accordance with section 134(2) of that Act, hereby make the following Regulations—

Enwi, cychwyn a dehongli

1. Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 21 Ebrill 2015 a'u henw yw Rheoliadau Traffordd yr M4 (Man i'r Gorllewin o Gyffordd 23A (Magwyr) i Fan i'r Dwyrain o Gyffordd 29 (Cas-bach)) (Terfynau Cyflymder Amrywiadwy) 2015.

Title, commencement and interpretation

1. These Regulations come into force on 21 April 2015 and their title is the M4 Motorway (West of Junction 23A (Magor) to East of Junction 29 (Castleton)) (Variable Speed Limits) Regulations 2015.

2. Yn y Rheoliadau hyn—

mae i “cerbyttffordd”, “llain galed” a “llain ymyl” yr un ystyr â “carriageway”, “hard shoulder” a “verge” yn Rheoliadau 1982;

ystyr “yr M4” (“*the M4*”) yw Traffordd yr M4 o Lundain i Dde Cymru;

2. In these Regulations—

“the 1982 Regulations” (“*Rheoliadau 1982*”) means the Motorways Traffic (England and Wales) Regulations 1982(2);

“the 2002 Regulations” (“*Rheoliadau 2002*”) means the Traffic Signs Regulations 2002(3);

(1) 1984 p. 27. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27. By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) S.I. 1982/1163, as amended by S.I. 1983/374, S.I. 1984/1479, S.I. 1992/1364 and S.I. 2004/3258.

(3) Part 1 of S.I. 2002/3113, as amended by S.I. 2005/1670; there are other amending instruments but none is relevant.

ystyr “Rheoliadau 1982” (“*the 1982 Regulations*”) yw Rheoliadau Traffig Traffyrdd (Cymru a Lloegr) 1982(1); ac

ystyr “Rheoliadau 2002” (“*the 2002 Regulations*”) yw Rheoliadau Arwyddion Traffig 2002(2).

Cymhwyso terfyn cyflymder amrywiadwy

3.—(1) Ni chaiff neb yrru cerbyd ar ran o ffordd sy’n ddarostyngedig i derfyn cyflymder amrywiadwy yn gyflymach na’r hyn a ddangosir gan arwydd terfyn cyflymder.

(2) Mae rhan o ffordd yn ddarostyngedig i derfyn cyflymder amrywiadwy mewn perthynas â cherbyd sy’n cael ei yrru arni—

- (a) os yw’r ffordd wedi ei phennu yn yr Atodlen;
- (b) os yw’r cerbyd wedi pasio arwydd terfyn cyflymder; ac
- (c) os nad yw’r cerbyd wedi pasio—
 - (i) arwydd terfyn cyflymder arall sy’n dangos terfyn cyflymder gwahanol; neu
 - (ii) arwydd traffig sy’n dangos bod y terfyn cyflymder cenedlaethol mewn grym.

(3) Mewn perthynas â cherbyd, y terfyn cyflymder a ddangosir gan arwydd terfyn cyflymder yw’r cyflymder a ddangosir ar yr adeg y mae’r cerbyd yn pasio’r arwydd, neu, os yw’n uwch na hynny, y terfyn cyflymder a ddangoswyd gan yr arwydd ddeng eiliad cyn i’r cerbyd basio’r arwydd.

(4) At ddiben y rheoliad hwn, bernir nad yw arwydd terfyn cyflymder yn dangos unrhyw derfyn cyflymder os oedd yr arwydd, ddeng eiliad cyn i’r cerbyd ei basio, wedi dangos nad oedd terfyn cyflymder neu wedi dangos bod y terfyn cyflymder cenedlaethol mewn grym.

(5) Yn y rheoliad hwn—

ystyr “arwydd terfyn cyflymder” (“*speed limit sign*”), mewn perthynas â cherbyd, yw arwydd traffig o’r math a ddangosir yn niagram 670 yn Atodlen 2 i Rheoliadau 2002, sef arwydd—

- (a) a roddir ar unrhyw ran o ffordd a bennir yn yr Atodlen, neu gerllaw iddi; a
- (b) a anelir at draffig ar y gerbyttffordd y gyrrir y cerbyd arni;

mae “ffordd” (“*road*”) yn cynnwys y llain galed a’r llain ymyl gyfagos; ac

“carriageway” (“*cerbyttffordd*”), “hard shoulder” (“*llain galed*”) and “verge” (“*llain ymyl*”) have the same meanings as in the 1982 Regulations; and “the M4” (“*yr M4*”) means the M4 London to South Wales Motorway.

Application of variable speed limit

3.—(1) No person shall drive a vehicle on a section of a road which is subject to a variable speed limit at a speed exceeding that indicated by a speed limit sign.

(2) A section of road is subject to a variable speed limit in relation to a vehicle being driven on it if—

- (a) the road is specified in the Schedule;
- (b) the vehicle has passed a speed limit sign; and
- (c) the vehicle has not passed—
 - (i) another speed limit sign indicating a different speed limit; or
 - (ii) a traffic sign which indicates that the national speed limit is in force.

(3) In relation to a vehicle, the speed limit indicated by a speed limit sign is the speed shown at the time the vehicle passes the sign, or, if higher, the speed limit shown by the sign ten seconds before the vehicle passed the sign.

(4) For the purpose of this regulation a speed limit sign is to be taken as not indicating any speed limit if, ten seconds before the vehicle passed it, the sign had indicated no speed limit or that the national speed limit was in force.

(5) In this regulation—

“national speed limit” (“*terfyn cyflymder cenedlaethol*”) has the meaning given by regulation 5(2) of the 2002 Regulations and a traffic sign which indicates that the national speed limit is in force means a traffic sign of the type shown in diagram 671 in Schedule 2 to the 2002 Regulations which is—

- (a) placed on or near a road; and
- (b) directed at traffic on the carriageway on which the vehicle is being driven;

“road” (“*ffordd*”) includes the adjacent hard shoulder and verge; and

(1) O.S. 1982/1163, fel y’i diwygiwyd gan O.S. 1983/374, O.S. 1984/1479, O.S. 1992/1364 ac O.S. 2004/3258.

(2) Rhan 1 o O.S. 2002/3113, fel y’i diwygiwyd gan O.S. 2005/1670; mae offerynnau diwygio eraill ond nid ydynt yn berthnasol.

mae i “terfyn cyflymder cenedlaethol” yr ystyr a roddir i “national speed limit” gan reoliad 5(2) o Reoliadau 2002 ac ystyr arwydd traffig sy’n dangos bod y terfyn cyflymder cenedlaethol mewn grym yw arwydd traffig o’r math a ddangosir yn niagram 671 yn Atodlen 2 i Reoliadau 2002, sef arwydd—

- (a) a roddir ar ffordd neu gerllaw iddi; a
- (b) a anelir at draffig ar y gerbyttfordd y gyrrir y cerbyd arni.

Dirymu

4. Mae Rheoliadau Traffordd yr M4 (O Fan i’r Gorllewin o Gyffordd 23A (Magwyr) i Fan i’r Dwyrain o Gyffordd 29 (Cas-bach)) (Terfynau Cyflymder Amrywiadwy) 2011(1) drwy hyn wedi eu dirymu.

“speed limit sign” (“*arwydd terfyn cyflymder*”), in relation to a vehicle, means a traffic sign of the type shown in diagram 670 in Schedule 2 to the 2002 Regulations which is—

- (a) placed on or near any part of a road specified in the Schedule; and
- (b) directed at traffic on the carriageway on which the vehicle is being driven.

Revocation

4. The M4 Motorway (West of Junction 23A (Magor) to East of Junction 29 (Castleton)) (Variable Speed Limits) Regulations 2011 (1) are hereby revoked.

Edwina Hart

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

30 Mawrth 2015

Minister for Economy, Science and Transport, one of the Welsh Ministers

30 March 2015

YR ATODLEN Erthygl 3(2)(a)
FFYRDD PENODEDIG

Y ffyrdd penodedig yw—

- (a) Y darn o gerbyttfordd tua'r gorllewin yr M4 o bwynt sy'n 675 o fetrau i'r gorllewin o linell ganol trosbont Trefesgob i Lanfarthin hyd at bwynt sy'n 22 o fetrau i'r gorllewin o ben gorllewinol y parapet ar danbont Forge Road.
- (b) Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain yr M4 o bwynt sy'n 39 o fetrau i'r gorllewin o ben gorllewinol y parapet ar danbont Forge Road hyd at bwynt sy'n 265 o fetrau i'r dwyrain o ben dwyreiniol parapet wal gynnal ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A48/A449 Cyfnewidfa Coldra.
- (c) Y darn o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth gyffordd 24 (Coldra) yr M4 o'r man lle y mae'n cysylltu â phrif gerbyttfordd tua'r dwyrain yr M4 hyd at bwynt sy'n 123 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â cherbyttfordd gylchredol yr A48/A449 Cyfnewidfa Coldra.
- (d) Y darn o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin, gan gynnwys y lôn i droi i'r chwith, wrth gyffordd 24 (Coldra) yr M4 o'r man lle y mae'n cysylltu â phrif gerbyttfordd tua'r gorllewin yr M4 hyd at bwynt sy'n 114 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â cherbyttfordd gylchredol yr A48/A449 Cyfnewidfa Coldra.
- (e) Y darn o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth gyffordd 24 (Coldra) yr M4 o bwynt sy'n 105 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â cherbyttfordd gylchredol yr A48/A449 Cyfnewidfa Coldra hyd at y man lle y mae'n cysylltu â phrif gerbyttfordd tua'r gorllewin yr M4.
- (f) Y darn o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth gyffordd 25 (Caerllion) yr M4 o'r man lle y mae'n cysylltu â phrif gerbyttfordd tua'r gorllewin yr M4 hyd at y man lle y mae'n cysylltu â cherbyttfordd gylchredol cylchfan Caerllion y B4596.
- (g) Y darn o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth gyffordd 25 (Caerllion) yr M4 o bwynt sy'n 94 o fetrau i'r dwyrain o'r man lle y mae'n cysylltu â cherbyttfordd gylchredol cylchfan Caerllion y B4596 hyd at y man lle y mae'n cysylltu â phrif gerbyttfordd tua'r dwyrain yr M4.

SCHEDULE Article 3(2)(a)
SPECIFIED ROADS

The specified roads are—

- (a) The length of the west bound carriageway of the M4 from a point 675 metres west of the centre line of the Bishton to Llanmartin overbridge to a point 22 metres west of the western end of the parapet on Forge Road underbridge.
- (b) The length of the east bound carriageway of the M4 from a point 39 metres west of the western end of the parapet on Forge Road underbridge to a point 265 metres east of the eastern end of the parapet of the eastbound on slip road retaining wall of the A48/A449 Coldra Interchange.
- (c) The length of the eastbound off slip road at junction 24 (Coldra) of the M4 from its connection with the main eastbound carriageway of the M4 to a point 123 metres west of its junction with the circulatory carriageway of the A48/A449 Coldra Interchange.
- (d) The length of the westbound off slip road, including the left turn lane, at junction 24 (Coldra) of the M4 from its connection with the main westbound carriageway of the M4 to a point 114 metres east of its junction with the circulatory carriageway of the A48/A449 Coldra Interchange.
- (e) The length of the westbound on slip road at junction 24 (Coldra) of the M4 from a point 105 metres west of its junction with the circulatory carriageway of the A48/A449 Coldra Interchange to its connection with the main westbound carriageway of the M4.
- (f) The length of the westbound off slip road at junction 25 (Caerleon) of the M4 from its connection with the main westbound carriageway of the M4 to its connection with the B4596 Caerleon roundabout circulatory carriageway.
- (g) The length of the eastbound on slip road at junction 25 (Caerleon) of the M4 from a point 94 metres east of its connection with the B4596 Caerleon roundabout circulatory carriageway to its connection with the main eastbound carriageway of the M4.

- (h) Y darn o'r ffordd gyswllt ymadael tua'r gorllewin wrth gyffordd 25A (Grove Park) yr M4 o'r man lle y mae'n cysylltu â phrif gerbyttfordd tua'r gorllewin yr M4 i'r man lle y mae'n cysylltu â'r A4042.
 - (i) Y darn o'r ffordd gyswllt ymuno tua'r dwyrain wrth gyffordd 25A (Grove Park) yr M4 o'r man lle y mae'n cysylltu â'r A4042 hyd at y man lle y mae'n cysylltu â phrif gerbyttfordd tua'r dwyrain yr M4.
 - (j) Y darn o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain, gan gynnwys y lôn i droi i'r chwith, wrth gyffordd 26 (Malpas) yr M4 o'r man lle y mae'n cysylltu â phrif gerbyttfordd tua'r dwyrain yr M4 hyd at y man lle y mae'n cysylltu â cherbyttfordd gylchredol cylchfan Malpas yr A4051.
 - (k) Y darn o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth gyffordd 26 (Malpas) yr M4 o'r man lle y mae'n cysylltu â phrif gerbyttfordd tua'r gorllewin yr M4 hyd at y man lle y mae'n cysylltu â cherbyttfordd gylchredol cylchfan Malpas yr A4051.
 - (l) Y darn o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth gyffordd 26 (Malpas) yr M4 o'r man lle y mae'n cysylltu â cherbyttfordd gylchredol cylchfan Malpas yr A4051 hyd at y man lle y mae'n cysylltu â phrif gerbyttfordd tua'r dwyrain yr M4.
 - (m) Y darn o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth gyffordd 26 (Malpas) yr M4 o bwynt sy'n 30 metr i'r gorllewin o'r man lle y mae'n cysylltu â cherbyttfordd gylchredol cylchfan Malpas yr A4051 hyd at y man lle y mae'n cysylltu â phrif gerbyttfordd tua'r gorllewin yr M4.
 - (n) Y darn o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth gyffordd 27 (High Cross) yr M4 o'r man lle y mae'n cysylltu â phrif gerbyttfordd tua'r dwyrain yr M4 hyd at y man lle y mae'n cysylltu â cherbyttfordd gylchredol cylchfan High Cross y B4591.
 - (o) Y darn o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth gyffordd 27 (High Cross) yr M4 o'r man lle y mae'n cysylltu â phrif gerbyttfordd tua'r gorllewin yr M4 hyd at y man lle y mae'n cysylltu â cherbyttfordd gylchredol cylchfan High Cross y B4591.
- (h) The length of the westbound off link road at junction 25A (Grove Park) of the M4 from its connection with the main westbound carriageway of the M4 to its connection with the A4042.
 - (i) The length of the eastbound on link road at junction 25A (Grove Park) of the M4 from its connection with the A4042 to its connection with the main eastbound carriageway of the M4.
 - (j) The length of the eastbound off slip road, including the left turn lane, at junction 26 (Malpas) of the M4 from its connection with the main eastbound carriageway of the M4 to its connection with the A4051 Malpas roundabout circulatory carriageway.
 - (k) The length of the westbound off slip road at junction 26 (Malpas) of the M4 from its connection with the main westbound carriageway of the M4 to its connection with the A4051 Malpas roundabout circulatory carriageway.
 - (l) The length of the eastbound on slip road at junction 26 (Malpas) of the M4 from its connection with the A4051 Malpas roundabout circulatory carriageway to its connection with the main eastbound carriageway of the M4.
 - (m) The length of the westbound on slip road at junction 26 (Malpas) of the M4 from a point 30 metres west of its connection with the A4051 Malpas roundabout circulatory carriageway to its connection with the main westbound carriageway of the M4.
 - (n) The length of the eastbound off slip road at junction 27 (High Cross) of the M4 from its connection with the main eastbound carriageway of the M4 to its connection with the B4591 High Cross roundabout circulatory carriageway.
 - (o) The length of the westbound off slip road at junction 27 (High Cross) of the M4 from its connection with the main westbound carriageway of the M4 to its connection with the B4591 High Cross roundabout circulatory carriageway.

- (p) Y darn o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth gyffordd 27 (High Cross) yr M4 o bwynt sy'n 80 metr i'r de-orllewin o'r man lle y mae'n cysylltu â cherbyttffordd gylchredol cylchfan High Cross y B4591 hyd at y man lle y mae'n cysylltu â phrif gerbyttffordd tua'r dwyrain yr M4.
- (q) Y darn o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth gyffordd 27 (High Cross) yr M4 o bwynt sy'n 103 o fetrau i'r dwyrain o'r man lle y mae'n cysylltu â cherbyttffordd gylchredol cylchfan High Cross y B4591 hyd at y man lle y mae'n cysylltu â phrif gerbyttffordd tua'r gorllewin yr M4.
- (r) Y darn o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth gyffordd 28 (Parc Tredegar) yr M4 o'r man lle y mae'n cysylltu â phrif gerbyttffordd tua'r gorllewin yr M4 hyd at y man lle y mae'n cysylltu â cherbyttffordd gylchredol cylchfan yr A48/A467. Mae hyn yn cynnwys y darn o lôn ar wahân y ffordd ymadael tua'r gorllewin sy'n ymestyn o bwynt lle y mae'n gwyro o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin hyd at bwynt sy'n gyfagos ar draws i'r man lle y mae'r ffordd ymadael tua'r gorllewin yn cysylltu â cherbyttffordd gylchredol cylchfan yr A48/A467.
- (s) Y darn o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth gyffordd 28 (Parc Tredegar) yr M4 o bwynt sy'n 392 o fetrau i'r gogledd o'r man lle y mae'n cysylltu â cherbyttffordd gylchredol cylchfan yr A48/A467 hyd at y man lle y mae'n cysylltu â phrif gerbyttffordd tua'r dwyrain yr M4.
- (p) The length of the eastbound on slip road at junction 27 (High Cross) of the M4 from a point 80 metres south-west of its connection with the B4591 High Cross roundabout circulatory carriageway to its connection with the main eastbound carriageway of the M4.
- (q) The length of the westbound on slip road at junction 27 (High Cross) of the M4 from a point 103 metres east of its connection with the B4591 High Cross roundabout circulatory carriageway to its connection with the main westbound carriageway of the M4.
- (r) The length of the westbound off slip road at junction 28 (Tredegar Park) of the M4 from its connection with the main westbound carriageway of the M4 to its connection with the A48/A467 roundabout circulatory carriageway. This includes the length of the westbound off slip road segregated lane which extends from a point where it diverges from the westbound off slip road to a point located transversely adjacent to the westbound off slip road connection with the A48/A467 roundabout circulatory carriageway.
- (s) The length of the eastbound on slip road at junction 28 (Tredegar Park) of the M4 from a point 392 metres north of its connection with the A48/A467 roundabout circulatory carriageway to its connection with the main eastbound carriageway of the M4.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2015 Rhif 1018 (Cy. 72)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Rheoliadau Traffordd yr M4 (Man
i'r Gorllewin o Gyffordd 23A
(Magwyr) i Fan i'r Dwyrain o
Gyffordd 29 (Cas-bach)) (Terfynau
Cyflymder Amrywiadwy) 2015

2015 No. 1018 (W. 72)

ROAD TRAFFIC, WALES


The M4 Motorway (West of
Junction 23A (Magor) to East of
Junction 29 (Castleton)) (Variable
Speed Limits) Regulations 2015

£6.00

W2263/04/15

ON

ISBN 978-0-348-11067-8



9 780348 110678